# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

**DYDD** Iau, 16 Gorffennaf 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** J. Tremlett (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod -. 10.00 yb - 10.15 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 12FED TACHWEDD, 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 gan ei fod yn gywir.**

## 3. Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL AM 2020-2021

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn argymell bod y Tâl Safonol am gartref gofal preswyl i bobl hŷn gyda'r Awdurdod Lleol yn cael ei godi o £612. 21 i £641.21 am welyau prif ffrwd ac o £837.50 i £863.43 am welyau i henoed bregus eu meddwl.

Cafodd y cynnydd o 4.74% am welyau prif ffrwd a 3.1% am welyau i henoed bregus eu meddwl ei briodoli i gynnydd sylweddol mewn costau staffio mewn perthynas â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, costau ychwanegol yn seiliedig ar oriau a dibyniaeth a chostau ychwanegol cyflenwadau a gwasanaethau. Nodwyd y byddai'r cyfraddau newydd yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2020 ac nid 1 Gorffennaf 2020 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

i. **bod y Tâl Safonol am gartref gofal preswyl i bobl hŷn gyda'r Awdurdod Lleol yn cael ei godi o £612.21 i £641.21 am welyau prif ffrwd ac o £837.50 i £863.43 am welyau i henoed bregus eu meddwl.**

**ii. y byddai'r cyfraddau newydd yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2020 yn achos y preswylwyr hynny yr oedd yr awdurdod hwn wedi eu rhoi yn ein Cartrefi Awdurdod Lleol ein hunain a'r preswylwyr hynny yr oedd awdurdodau lleol eraill wedi eu rhoi yn ein cartrefi.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**